



## Cynghorydd Arbennig ar Ymchwil ac Arloesi Disgrifiad o'r rôl

Mae'r rôl Cynghorydd Arbennig ar Ymchwil ac Arloesi yn rôl ddi-dâl i Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Bydd yr unigolyn a benodir yn adrodd yn uniongyrchol i Lywydd y Gymdeithas.

### Nodau'r rôl

- Sefydlu'r Gymdeithas fel prif lais ar faterion ymchwil ac arloesi yng Nghymru
- Darparu arbenigedd ym maes Ymchwil ac Arloesi ar draws sefydliadau a disgyblaethau, ac mewn modd amhleidiol
- Datblygu perthnasau'r Gymdeithas â rhanddeiliaid perthnasol ym maes addysg uwch, llywodraeth a diwydiant

### Tasgau

Mae gan y Gymdeithas ddull hyblyg o ymdrin â sut y bydd y Cynghorydd Arbennig yn cyflawni'r nodau uchod. Fodd bynnag, disgwylir i dasgau penodol gynnwys y canlynol (gan weithio ochr yn ochr â'r Llywydd neu'r Prif Weithredwr fel y bo'n briodol):

- Cynrychioli'r Gymdeithas mewn cyfarfodydd Ymchwil ac Arloesi ac mewn trafodaethau gyda chyrrff y llywodraeth, chwaer- acadëmiau, a sefydliadau tebyg yn y DU a thu hwnt
- Briffio'r Gymdeithas ar ddatblygiadau pwysig, a rhoi cyngor ar safbwyntiau polisi; bydd hyn yn cynnwys adrodd i Gyngor y Gymdeithas o leiaf unwaith y flwyddyn i roi gwybod am ddatblygiadau
- Cefnogi datblygu capasiti Ymchwil ac Arloesi'r Gymdeithas, e.e. drwy annog Cymrodwr i gymryd rhan mewn gweithgareddau perthnasol, a chefnogi enwebiadau unigolion sydd â chymwysterau addas ar gyfer Cymrodoriaeth
- Cefnogi ymdrechion i sicrhau gwell cynrychiolaeth o Gymru ar Gyngorau UKRI a chyrrff perthnasol eraill
- Cyfarfod â chynrychiolwyr y llywodraeth a diwydiant, a sefydlu rhwydwaith ar draws sectorau i gefnogi eu hymgysylltiad gydag academyddion

### Proffil personol

- Dealltwriaeth gryf o Ymchwil ac Arloesi, a hanes rhagorol o weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys mewn diwydiant
- Hanes o ragoriaeth academaidd ac/neu lwyddiant mewn rôl uwch-arweinydd
- Sgiliau rhwydweithio cryf a chysylltiadau sefydledig o fewn sefydliadau a grwpiau perthnasol
- Diddordeb ehangach yng ngwaith y Gymdeithas, ac ymrwymiad i hyrwyddo ei blaenoriaethau strategol

*Nid oes tâl am y rôl hon, ond bydd treuliau rhesymol yn cael eu had-dalu, yn unol â pholisi treuliau'r Gymdeithas.*